Twf Sefydliadol Comic Relief
Dyfarniadau

Mudiad	Disgrifiad o'r Gweithgaredd	Sir	Dyfarniad grant
Porthi Aber	Bydd y cyllid hwn yn darparu amser strategaeth a datblygu hanfodol wedi'i gyllido ar ffurf Swyddog Datblygu Sefydliadol a chymorth gwirfoddolwr ychwanegol a chydgysylltiad i alluogi manteision ac effaith cymunedol cryfach. Bydd hyn yn galluogi'r mudiad i flodeuo a ffynnu ac wrth ddarparu newid ystyrlon dan arweiniad y gymuned.	Ceredigion	£33,321.51
Canolfan Antioch	Mae "O Leoedd i Gefnogaeth" yn galluogi Antioch i uwchraddio cyfleusterau llogi ystafelloedd, gan greu mannau gwell ar gyfer y gymuned. Bydd hyn yn rhoi hwb i incwm ac yn gwella gwydnwch, gan alluogi Antioch i ehangu gwasanaethau hanfodol fel y banc bwyd, y caffi a mannau cynnes – gan rymuso trigolion lleol â mwy o gymorth, cysylltiad, a chyfleoedd.	Sir Gaerfyrddin	£31,544.40
Cyllid Cymunedol Assadaqaat	Byddwn yn cryfhau ein gwydnwch drwy wella seilweithiau marchnata, codi arian, a digidol, gan ein caniatáu i ymgysylltu â chymwynaswyr allweddol a denu cyllid cynaliadwy. Trwy greu esiamplau newydd a dangos straeon buddiolwyr, byddwn yn dangos effaith, yn sicrhau cymorth, yn datblygu twf sy'n para ac yn grymuso cymunedau sydd wedi'u tanwasanaethu i ffynnu a llwyddo.	Caerdydd	£33,420.00
Cwmni Buddiant Cymunedol Autism Wellbeing	Datblygu Autism Wellbeing fel y gallwn ddod yn ddarparwyr arbenigol o addysg ar Awtistiaeth, Trawma Synhwyraidd a Chyfathrebu Ymatebol.	Sir Gaerfyrddin	£34,760.00

Mudiad	Disgrifiad o'r Gweithgaredd	Sir	Dyfarniad grant
Cwmni Buddiant Cymunedol Baobab Bach	Byddwn yn parhau i ddarparu ein Pantri Cymunedol a'n gwasanaethau danfon presennol tra'n datblygu gwasanaethau ychwanegol yn ein canolfan newydd. Bydd hyn yn cynnwys allgymorth cymunedol ag amrywiaeth o bartner sefydliadau, caffi cymunedol 'talu fel y teimlwch', darpariaeth o brydau parod maethlon a gwasanaeth prydau amser cinio.	Pen-y-bont ar Ogwr	£29,518.18
Basecamp Co-operative	Bydd y cyllid hwn yn caniatáu i ni wella ymdrechion marchnata a datblygu strategaeth sefydliadol gynhwysfawr ar gyfer gwydnwch hirdymor. Byddwn yn cyflogi gweithiwr marchnata proffesiynol i ehangu cyrhaeddiad ac incwm cleientiaid, ac yn buddsoddi mewn amser arweinyddiaeth ac ymgynghoriaeth i lunio strategaeth dwf gynaliadwy, gan leihau dibyniaeth ar grantiau.	Sir Fynwy	£32,000.00
Cwmni Buddiant Cymunedol Boss & Brew	Bydd Boss & Brew Academy yn cynyddu ei faint drwy ail-lansiad ac ail-frandio dynamig, ehangu i ganolfannau cwsmeriaid newydd, cyflogi Rheolwr Digwyddiadau, a chryfhau partneriaethau sector preifat. Bydd y gweithgareddau hyn yn ehangu ein cyrhaeddiad, yn gwella cynaliadwyedd, ac yn creu cyfleoedd newydd sbon i bobl ifanc Caerdydd ffynnu.	Caerdydd	£20,002.00
Bridging the Gap Youth - Merthyr	Darparu gwasanaeth ychwanegol i'n clwb ar ôl yr ysgol a gwyliau presennol, cynnig man diogel i oedolion ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol 19 oed a hŷn â gweithgareddau priodol i oed difyr i gefnogi eu datblygiad cymdeithasol, corfforol, deallusol, creadigol ac emosiynol, yn ogystal â hybu annibyniaeth a sgiliau bywyd.	Merthyr Tudful	£34,393.88

Mudiad	Disgrifiad o'r Gweithgaredd	Sir	Dyfarniad grant
Fferm Holistaidd Cae Rhug	Prosiect i archwilio'r posibiliadau yn ymwneud â chynhyrchu a gwerthu cnydau bwyd/planhigion gwerth uchel a threftadaeth gan y cymunedau digartref a gynorthwyir yn Fferm Holistaidd Cae Rhug. Darparu cymorth iechyd meddwl a llesiant meddyliol, gwella sgiliau a chyfleoedd a chynyddu sefydlogrwydd sefydliadol.	Sir y Fflint	£34,610.00
Canolfan y Glowyr Caerffili ar gyfer y Gymuned	Bydd Canolfan y Glowyr Caerffili yn darparu gweithgareddau ieuenctid drwy'r flwyddyn, gan gynnwys cylchoedd chwarae, clybiau ar ôl yr ysgol, rhaglenni gwyliau, sesiynau galw heibio, a chyfleoedd gwirfoddoli. Mae'r gweithgareddau hyn yn hybu llesiant, creadigrwydd, hyder, a chynhwysiant i blant a phobl ifanc 0-18 oed, gan feithrin cysylltiadau cymunedol cryfach a datblygiad sgiliau bywyd.	Caerffili	£35,000.00
Calon y Cymoedd Cyf	Menter gymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau cymorth i drigolion yng Nghastell-nedd Port Talbot yw Calon y Cymoedd. Rydym yn darparu gwasanaethau yn y gymuned, gan gynnig cymorth a chefnogaeth i gleientiaid yn eu cartrefi, a helpu drwy hynny i wella llesiant a hybu annibyniaeth. Mae ein Cynorthwywyr Cartref yn cyflawni tasgau yn y cartref, yn gwneud negesi, ac yn cynnig cwmni.	Castell-nedd Port Talbot	£33,989.40

Mudiad	Disgrifiad o'r Gweithgaredd	Sir	Dyfarniad grant
Campfire Cymru	Datblygu cymuned gefnogol i deuluoedd ag anableddau, niwroamrywiaeth neu orbryder yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Cryfhau'r gymuned hon trwy gyd-gynhyrchu, digwyddiadau ar y cyd, codi arian a chyfleoedd gwirfoddoli. Cyflogi cydgysylltydd cymunedol i weithio gyda'r gymuned, gan annog twf, datblygiad a chyfrifoldeb. Annog llesiant trwy gysylltiad â natur.	Sir Ddinbych	£29,945.00
Clwb Strôc Caerfyrddin	Mae Clwb Strôc Caerfyrddin, sy'n fach ond yn llwyddiannus, wedi cyrraedd pwynt twf allweddol. Mae'r Clwb angen, tra'n cynnal ei raglen gymorth wythnosol bresennol, adolygu ei sefyllfa bresennol ar frys, penderfynu ar ei flaenoriaethau, ymgysylltu â'i Gyngor Gwirfoddol Sirol lleol, a recriwtio gwirfoddolwyr i ddatblygu sylfeini cryfion sy'n gynaliadwy yn ariannol.	Sir Gaerfyrddin	£22,950.00
Cegin y Bobl	Byddwn yn sicrhau dyfodol ein gwaith yn Ne Cymru ac yn rhoi sylfeini cadarn i Cegin y Bobl adeiladu arnynt yn y blynyddoedd i ddod. Byddwn yn buddsoddi mewn codi arian a marchnata i ganiatáu i ni ddarparu hyfforddiant addysg fwyd ymarferol i oedolion agored i niwed, plant ysgol ac athrawon, gan wella iechyd a llesiant.	Sir Gaerfyrddin	£35,000.00
Charity for Action on Spiritual Abuse	Adleoli'n strategol ar gyfer twf a gwydnwch sefydliadol, gan sicrhau bod capasiti yn bodloni galw cynyddol. Ailddatblygu gwasanaethau cymorth i: wella effeithlonrwydd a gwydnwch y gwasanaeth, cynyddu capasiti i gynorthwyo mwy o fuddiolwyr, gwella ansawdd y cymorth a gynigir, gwella prosesau recriwtio gwirfoddolwyr, hyfforddiant a rheoli, sicrhau cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth.	Sir Benfro	£34,369.38

Mudiad	Disgrifiad o'r Gweithgaredd	Sir	Dyfarniad grant
Gardd Gymunedol Clydach	Mudiad cymunedol syn rheoli man gwyrdd addysgol ar gyfer dysgu am fwyd, hinsawdd a'r amgylchedd yw Gardd Gymunedol Clydach. Drwy'r grant hwn, byddwn yn ehangu ein gallu i ddarparu sesiynau ac adnoddau ychwanegol i'r gymuned a datblygu ochr strategol y mudiad.	Abertawe	£29,500.30
Cwmni Bro Antur Aelhaearn (1974)	Caiff Cwmni Bro Antur Aelhaearn (1974) ei reoli gan Senedd a chriw o wirfoddolwyr ac yn cynnig gwasanaethau/ cyfleusterau i drigolion yr ardal. Rydym eleni yn dathlu 50 mlynedd fel menter gymunedol gyntaf gwledydd Prydain. I lywio/ darparu gwasanaethau i'r dyfodol rydym angen penodi Rheolwr Prosiectau llawn amser.	Gwynedd	£35,000.00
Amgueddfa Cwm Cynon	Mae ailgyflwyno'r Amgueddfa ers pandemig COVID ac ailsefydlu gwasanaethau wedi dod â'r Ymddiriedolaeth i'r pwynt lle mae'n rhagweld llwybr i wydnwch a chynaliadwyedd. I ddatblygu hwn a chynorthwyo arweinydd y tîm i symud i gyfeiriadau newydd, bydd y cyllid hwn yn rhoi'r capasiti i ni dyfu a ffynnu.	Rhondda Cynon Taf	£33,240.00
Clwb Pêl-droed Tref Dinbych	Bydd y gegin fasnachol yng Nghlwb Pêl-droed Tref Dinbych yn cefnogi rhaglenni ieuenctid fel Young Stars i bobl ifanc difreintiedig yn eu harddegau, yn gwella cyflogadwyedd drwy hyfforddi gwirfoddolwyr, ac yn darparu man amlddefnydd ar gyfer digwyddiadau a gweithdai cymunedol, gan gynnwys partneriaethau gydag Ysgol Plas Brondyffryn. Bydd yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.	Sir Ddinbych	£22,000.00

Mudiad	Disgrifiad o'r Gweithgaredd	Sir	Dyfarniad grant
Delio ag Anabledd a Sialens Hunangymorth (DASH) Ceredigion	Byddwn yn cyflogi swyddog datblygu rhan-amser i weithio gyda'r uwch dîm presennol i archwilio opsiynau i dyfu DASH yn fudiad mwy sefydlog yn ariannol er mwyn cynnig mwy o opsiynau chwarae a chymdeithasu i blant ag anableddau yng Ngheredigion.	Ceredigion	£25,322.77
Family Friends	Cefnogi arweinyddiaeth a diweddaru systemau i alluogi gweledigaeth strategol newydd "Creu Cysylltiadau: Datblygu Gwydnwch" i gael ei gwireddu trwy gysylltu pobl ag anghenion tebyg, meithrin rhwydweithiau organig sy'n datblygu gwydnwch, creu newid sy'n para, a lleihau dibyniaeth ar ymyrraeth broffesiynol, gan ddarparu cymorth cynaliadwy dan arweiniad y gymuned ar gyfer yr hirdymor.	Wrecsam	£34,922.08
Cwmni Buddiant Cymunedol Gwydnwch Cymunedol Ffynnone	Rydym yn gweithio i greu system fwyd leol wydn sy'n gweithio i bawb. Rydym yn bwriadu datblygu Fferm Gymunedol, tyfu partneriaethau, cynorthwyo cynhyrchwyr bwyd ecolegol-amaethyddol a datblygu ein gwaith craidd ym maes bwyd cymunedol. Ein nod yw dod yn fudiad sy'n gynaliadwy yn ariannol, gan ddarparu cymorth ystyrlon i'n cymuned yn yr hirdymor.	Sir Benfro	£35,000.00
Cwmni Buddiant Cymunedol Stiwdio Fieldwork	Ar y pwynt hollbwysig hwn yn nhwf Fieldwork, bydd y grant hwn yn cryfhau ein strwythur mewnol a'n systemau rheoli i lunio strategaeth gyllido gynaliadwy 5 mlynedd, yn canolbwyntio ar bartneriaethau 3ydd sector, cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, a nawdd. Bydd y strategaeth hon yn cefnogi ein mentrau sy'n ehangu ar gyfer y gymuned leol, plant, teuluoedd, ac aelwydydd â diffyg diogeledd bwyd.	Bro Morgannwg	£27,875.00

Mudiad	Disgrifiad o'r Gweithgaredd	Sir	Dyfarniad grant
Cwmni Buddiant Cymunedol Foundation for Sport Coaching	Bydd Foundation for Sport Coaching (F4SC) yn ehangu rhaglenni datblygu ieuenctid, yn gwella gwydnwch sefydliadol trwy hyfforddiant arweinyddiaeth, gwelliannau llywodraethu, ac achrediad gwirfoddolwyr, ac yn cyflwyno gwasanaethau corfforaethol newydd i arallgyfeirio incwm. Bydd y mentrau hyn yn sicrhau cefnogaeth gynaliadwy i gymunedau sydd wedi'u tanwasanaethu yng Nghaerdydd ac yn meithrin effaith gymdeithasol hirdymor.	Caerdydd	£33,700.00
GreenSoul	Bydd y Green Nest Hub yn fan bywiog a chynhwysol yng Nghaerdydd sydd â'r bwriad o feithrin llesiant, creadigrwydd, a chysylltiad i deuluoedd sy'n wynebu adfyd. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddatblygu cymuned gynaliadwy a chefnogol lle gall pobl gael gafael ar adnoddau, datblygu sgiliau, a mwynhau daioni i'w cyrff a'u heneidiau.	Caerdydd	£35,000.00
Ffilmiau Gritty	Nod y prosiect hwn yw cyrraedd y bobl ifanc fwyaf ymylol ac amrywiol yn Ne Cymru a rhoi sgiliau y gallant eu defnyddio iddynt yn gysylltiedig â thechnegau gwneud ffilmiau ac animeiddio. Bydd hwn yn gyfle i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar y bobl ifanc hyn gan ddefnyddio eu lleisiau a'u gwaith celf eu hunain.	Caerdydd	£29,217.00

Mudiad	Disgrifiad o'r Gweithgaredd	Sir	Dyfarniad grant
Heol Chwarae Rôl TA Role Play Lane	Byddwn yn defnyddio'r grant hwn i fyfyrio ar ein cynnydd, i gynllunio ar gyfer y dyfodol, ac i gydweithredu â mudiadau i wella ein heffaith ar gymunedau, yn enwedig teuluoedd ADY. Byddwn yn llunio cynllun gweithredu i ddarparu sesiynau ymarferol i gynorthwyo pobl ifanc sy'n cael trafferthion mewn addysg, gan eu helpu i ennill sgiliau hanfodol ar gyfer y gweithle.	Rhondda Cynon Taf	£20,000.00
Home4U Caerdydd	Bydd Home4U yn bwrw ymlaen â thwf a datblygiad strategol. Byddwn yn arallgyfeirio incwm i sicrhau mwy o gynaliadwyedd. Bydd hyn yn cynyddu ein capasiti o lety diogel â chymorth. I barhau i flaenoriaethu'r rhai a wnaed yn amddifad, heb unrhyw hawl i weithio neu gael gafael ar fudd-daliadau, yn ogystal â ffoaduriaid newydd sy'n llywio'r systemau tai/budd-daliadau.	Caerdydd	£35,000.00
Hope GB	Fel elusen awtistiaeth fach sydd wedi'i hen sefydlu yn Ne Cymru, rydym yn gwneud cais am gyllid ar gyfer y cyfle i gael effaith strategol a chynyddu ein gwydnwch. Mewn ymateb i'r galw cymunedol am ein gwasanaethau arbenigol, rydym yn dymuno creu capasiti i gyflawni mwy o weithgareddau.	Torfaen	£27,385.03
Hope St Mellons (Here for Good Collective)	Yn 2023, daeth Hope St Mellons yn Fudiad Corfforedig Elusennol a chymerodd gyfrifoldeb am reoli adeilad cymunedol; canolfan ar gyfer ein 13 o brosiectau a mwy na 45 o wirfoddolwyr. Trwy 'Root & Grow', rydym yn adeiladu ar hyn drwy anfon gwreiddiau yn ddwfn i'n cymunedau a gwahodd pobl leol i dyfu a llunio ein dyfodol.	Caerdydd	£34,979.30

Mudiad	Disgrifiad o'r Gweithgaredd	Sir	Dyfarniad grant
HWB Cymunedol Porthi Dre	Bydd Porthi Dre yn penodi Swyddog Ymchwil a Datblygu llawn amser i atgyfnerthu gwasanaethau craidd, i ddatblygu cyfleoedd arloesol, ac i esblygu'n gynaliadwy. Bydd y swydd hon yn cryfhau gwydnwch, yn sicrhau cyllid, ac yn ysgogi twf, gan sicrhau bod yr elusen a'i rhanddeiliaid yn ffynnu gyda'i gilydd ar gyfer yr hirdymor.	Gwynedd	£34,880.00
Joseph's Smile	Rydym yn bwriadu cyflogi rheolwr digwyddiadau a chyfryngau dros dro i oruchwylio portffolio digwyddiadau ein helusen, gan ryddhau'r Prif Swyddog Gweithredu a'r ymddiriedolwyr i ganolbwyntio ar strategaeth codi arian, twf a chynaliadwyedd. Fel elusen sy'n tyfu'n gyflym, rydym yn barod i ehangu ein gweithlu ac archwilio cyfleoedd newydd, gan sicrhau llwyddiant hirdymor y tu hwnt i ddibyniaeth ar grantiau.	Sir Gaerfyrddin	£25,000.00
Cymdeithas Chwaraeon a Hamdden Bae Cinmel a Thowyn	Mae KBTSRA yn bwriadu gosod eisteddle i wylwyr yn y ganolfan gymunedol a fydd yn gwella profiadau mewn digwyddiadau trwy ddarparu seddi cyfforddus gan wella hygyrchedd a meithrin mwy o ymgysylltiad cymunedol. Bydd yr eisteddle yn rhoi hwb i niferoedd, yn cefnogi cyfranogwyr, yn denu digwyddiadau mwy ac yn creu cyfleoedd refeniw newydd, gan gyfrannu at dwf a chynaliadwyedd hirdymor y ganolfan.	Conwy	£31,295.00

Mudiad	Disgrifiad o'r Gweithgaredd	Sir	Dyfarniad grant
Cwmni Buddiant Cymunedol Learn and Grow	Bydd Caffi Argyfwng Cwtch yn cynnig man diogel a chroesawgar i unigolion sy'n wynebu heriau iechyd meddwl y tu allan i oriau gwasanaeth safonol. Mae'n gweithredu fin nos ac yn cynnig cymorth anfeirniadol a hygyrch i'r rhai sydd mewn argyfwng neu drallod. Gall ymwelwyr hunangyfeirio heb asesiadau clinigol a chael y cymorth i atal argyfwng rhag gwaethygu.	Torfaen	£26,505.00
Hwylio Treftadaeth y Fenai	I godi arian tuag at 2 aelod o staff ychwanegol rhan-amser i lunio twf yr elusen a chynyddu budd gweithgareddau. Bydd y swyddi hyn yn rheoli ein Canolfan ac yn recriwtio a chynorthwyo gwirfoddolwyr, gan arwain at gynnig ehangach a mwy cadarn i'r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu.	Ynys Môn	£32,418.06
MMI Trading with Care	Canolfan gymunedol i oedolion o bob oed a gallu, man croesawgar a chynhwysol y bwriedir iddo gynorthwyo unigolion trwy gynnig amrywiaeth o wasanaethau, adnoddau, a gweithgareddau sy'n diwallu anghenion amrywiol. Mae'r ganolfan yn meithrin cysylltiad cymdeithasol, datblygiad personol, a llesiant, cymdeithasu, dysgu, gwirfoddoli, a mynediad at wybodaeth a chymorth.	Castell-nedd Port Talbot	£27,000.00
Cwmni Buddiant Cymunedol Newport Support Network	Cegin a Banc Bwyd Cymunedol Halal Casnewydd: Sefydlu cegin a banc bwyd dan arweiniad y gymuned yng Nghasnewydd sy'n cynnig prydau halal a diwylliannol briodol, dosbarthiadau coginio, a gwasanaethau cymorth. Mynd i'r afael â diffyg diogeled bwyd, hybu cynhwysiant cymdeithasol, a grymuso aelodau'r gymuned sy'n agored i niwed. Creu model cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau cymorth bwyd sy'n sensitif yn ddiwylliannol.	Casnewydd	£35,000.00

Mudiad	Disgrifiad o'r Gweithgaredd	Sir	Dyfarniad grant
Cyfraith Gymunedol y Gogledd	I ddatblygu ein capasiti sefydliadol, byddwn yn cyflogi Gweinyddwr, gan ganiatáu i ni symud pwyslais y Cyfarwyddwr Gweithrediadau ymhellach tuag at gynhyrchu incwm. Bydd arian a godir o ganlyniad yn caniatáu i ni dyfu'r tîm, i gynhyrchu incwm mwy cynaliadwy ac i ddarparu cyngor ar dai i fwy o bobl sy'n wynebu digartrefedd yng Ngogledd Cymru.	Conwy	£21,841.81
Park In The Past	Atyniad cadwraeth, addysg a threftadaeth cymunedol arloesol yw Park in the Past. Gan weithio gyda Comic Relief, byddwn yn recriwtio Swyddog Datblygiad Addysgol i ymestyn ein profiadau addysgol i blant, pobl ifanc ac oedolion allu manteisio ar ein tirwedd hardd.	Sir y Fflint	£22,782.00
Fferm Flodau Petallica	Byddwn yn cymryd camau pwysig gyda'r cyllid hwn, gan gynnwys datblygu strategaeth sefydliadol, i ddod yn hunangynhaliol erbyn diwedd 2027. Bydd hyn yn caniatau i ni ariannu ein prosiectau cymunedol trwy werthu blodau, gweithdai a digwyddiadau yn unig, gan gael gwared ar ddibyniaeth ar gyllid grant allanol.	Abertawe	£28,742.00
Play Radnor/Chwarae Maesyfed	Cryfhau nodau strategol y mudiad a datblygu gwasanaethau ieuenctid yn yr ardal leol.	Powys	£32,845.00
Canolfan Gymunedol Adnoddau Rasa	Rydym yn dymuno creu canolfan wydn, yn ariannol, yn amgylcheddol ac yn ffisegol, gan gynnig canolfan a redir gan y gymuned sydd wedi'i chynnal a'i rheoli'n dda, sy'n darparu gwasanaethau a gweithgareddau y mae'r gymuned eu heisiau a'u hangen.	Blaenau Gwent	£21,840.00

Mudiad	Disgrifiad o'r Gweithgaredd	Sir	Dyfarniad grant
Cwmni Buddiant Cymunedol Reality Theatre	Ein nod yw mireinio a datblygu swyddi i gynnwys hyfforddiant, i weithredu system rheoli digwyddiadau a gweithgareddau, ac i archwilio a mynd ar drywydd ein potensial ar gyfer twf incwm masnachol. Bydd hyn yn rhoi sail gadarn i ni ar gyfer twf cynaliadwy, gan ganiatáu i ni gryfhau ein systemau rheoli mewnol.	Casnewydd	£34,140.00
Ail-ddeffro	Nod Ail-ddeffro yw dod yn fudiad codi arian llwyddiannus. Byddwn yn datblygu ac yn darparu strategaeth codi arian 5 mlynedd greadigol, i roi'r gwydnwch a'r cynaliadwyedd ariannol sydd eu hangen arnom i barhau i gynnig gwasanaethau cymorth iechyd meddwl ymyrraeth gynnar hollbwysig i bobl ifanc 16 i 25 oed yng Nghanolbarth Cymru.	Powys	£34,029.13
RecRock Ltd.	Cyrraedd rhagor o bobl a chynyddu ein heffaith drwy gynyddu graddfa'r hyn yr ydym yn ei wneud, trwy gyflwyno ffyrdd newydd o weithio, cael mynediad at hyfforddiant i lenwi bylchau hyfforddiant, ehangu i feysydd newydd, ymgysylltu â darpar bartneriaid a rhyddhau personél allweddol i gyflawni'r newidiadau sefydliadol angenrheidiol i gryfhau gwydnwch.	Caerffili	£35,000.00
Eglwys Ddiwygiedig Unedig Rivertown	Mae Rivertown Hope on the High Street yn canolbwyntio ar ddatblygu Eglwys Rivertown ymhellach fel Canolfan Gymunedol (mae eisoes wedi'i dynodi'n un gan Gyngor Sir y Fflint). Bydd prosiect cyfalaf wedi'i gefnogi gan Sir y Fflint, Llywodraeth Cymru ac URC yn cael ei ategu gan raglen refeniw bwrpasol â staff a rhaglenni cymunedol.	Sir y Fflint	£35,000.00

Mudiad	Disgrifiad o'r Gweithgaredd	Sir	Dyfarniad grant
Romodels	Bydd y grant yn galluogi Romodels i fuddsoddi yn natblygiad strategaeth tair blynedd, arallgyfeirio incwm a chapasiti arweinyddiaeth i sicrhau bod rhagor o blant a phobl ifanc ledled Cymru yn cael y cyfle i glywed gan esiamplau amrywiol a darganfod posibiliadau gyrfaol cyffrous.	Caerdydd	£34,071.00
Canolfan Galw Heibio Ieuenctid Senghennydd	Nod SYDIC yw sefydlu swydd Swyddog Cynaliadwyedd a Datblygiad Cymunedol i wella cyfleoedd ariannu, i sicrhau sefydlogrwydd ariannol hirdymor, ac i ddatblygu twf sefydliadol. Bydd y swydd hon yn helpu i gefnogi cyfnod pontio didrafferth wrth newid staff a chyfarwyddwyr ac i ddatblygu partneriaethau o fewn y sector preifat i sicrhau lled gynaliadwyedd.	Caerffili	£33,936.60
Eglwys Sharon Full Gospel	Mae Hope for the Community yn dod â'r gymuned at ei gilydd i fynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol a thlodi bwyd trwy amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys ein siop fwyd a chaffi cost isel. Mae ein basgedi prydau bwyd yn cynorthwyo teuluoedd yn ystod gwyliau'r ysgol ac mae ein cynllun Help2Heat yn cynorthwyo'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd.	Torfaen	£34,580.82
Signposted Cymru	Bydd ein Rheolwr Swyddfa, gyda chymorth staff gweinyddol, yn goruchwylio gweithrediadau dyddiol, yn cydgysylltu tasgau, yn cynorthwyo gyda cheisiadau am gyllid, ac yn gwella cynhyrchiant y tîm. Trwy sicrhau gweithle trefnus, effeithlon, a phositif, byddant yn galluogi Signposted Cymru i weithredu'n ddidrafferth a chyflawni ei nodau i gefnogi llesiant cymunedol.	Rhondda Cynon Taf	£33,945.60

Mudiad	Disgrifiad o'r Gweithgaredd	Sir	Dyfarniad grant
Cwmni Buddiant Cymunedol Silbers	Datblygu darpariaeth iechyd meddwl a llesiant meddyliol am ddim i deuluoedd sydd wedi'u hynysu ac yn agored i niwed ledled Sir Benfro i alluogi a hyrwyddo hunanofal a chysylltiad cymdeithasol gyda'r nod o leihau effeithiau trawma cenedliadol a gwella bywyd bob dydd.	Sir Benfro	£34,950.00
Eryri-Bywiol	Trwy amser staff, byddwn yn archwilio partneriaethau ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor prosiect Babi Actif. Bydd y mudiad yn cynyddu ei gapasiti iaith Gymraeg ac yn datblygu llwybr atgyfeirio ar gyfer Babi Actif i helpu i dyfu partneriaethau gyda'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a chyrraedd y rhai sydd fwyaf mewn angen.	Gwynedd	£20,000.00
Theatr Spectacle Cyf	Ein nod yw darparu cymorth ar gyfer tîm arweinyddiaeth newydd i'r elusen. Mudiad dwyieithog cynaliadwy ag arferion wedi'u hymwreiddio yng nghymunedau a sefydliadau addysgol De Cymru. Â rhagor o fynediad at theatr o ansawdd uchel sy'n trawsnewid bywydau, yn creu mannau diogel ac yn herio allgau.	Rhondda Cynon Taf	£29,877.00
Pêl-droed Stryd Cymru	Byddwn yn darparu hyfforddiant cymorth cyntaf wedi'i hysbysu gan drawma ac iechyd meddwl i arfogi staff a gwirfoddolwyr yn Pêl-droed Stryd Cymru. Bydd hyn yn gwella ein gallu i gynorthwyo cyfranogwyr digartref, gan greu amgylchedd diogel a chynhwysol, gwella llesiant, a sicrhau y gall ein tîm ymateb yn effeithiol i anghenion cymhleth gyda thosturi ac arbenigedd.	Caerdydd	£23,500.00

Mudiad	Disgrifiad o'r Gweithgaredd	Sir	Dyfarniad grant
Cefnogi Ceiswyr Lloches Abertawe	Bydd SASS yn creu swydd newydd Arweinydd Tîm i ddatblygu a chyflwyno systemau newydd i ddarparu rheolaeth linell o staff a chydgysylltu swyddogaethau sefydliadol allweddol, gan ryddhau ymddiriedolwyr i ganolbwyntio ar waith strategol yn hytrach na gweithredu a rheoli.	Abertawe	£32,705.50
The Birth Partner Project	I ddatblygu ein gwydnwch, byddwn yn datblygu strategaeth sefydliadol gadarn ac yn arallgyfeirio ffrydiau incwm ag amlygrwydd cyhoeddus gwell; byddwn yn datblygu ein systemau data, cyfrifyddu a TG ymhellach ac yn sefydlu rhaglen monitro a gwerthuso, gan sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf ac y gallwn rannu hyn gyda'r byd.	Caerdydd	£34,910.02
Cynllun Mentora Ychwanegol y Bont	Bydd y prosiect a ddarperir yn saethu Cynllun Mentora Ychwanegol y Bont i Gymru'r 2020au. Buddsoddi mewn strwythurau a datblygiad sgiliau a fydd yn arfogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a staff gyda'r mesurau casglu data, yr amser a'r wybodaeth i allu sicrhau bod y gwasanaeth yn wydn, gan ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl ar gyfer y gymuned.	Pen-y-bont ar Ogwr	£19,793.37
The Rockworks Academy Ltd	Byddwn yn defnyddio amrywiaeth eang o weithgareddau cerddoriaeth cyfoes i ddarparu cymysgedd o weithdai grŵp, sesiynau wyneb yn wyneb a chyrsiau achrededig i sefydliadau sy'n gweithio gyda chymunedau mwyaf agored i niwed, wedi'u hynysu a'u hymyleiddio cymdeithas gyda phwyslais ar wasanaethau cymorth iechyd meddwl.	Wrecsam	£21,183.75

Mudiad	Disgrifiad o'r Gweithgaredd	Sir	Dyfarniad grant
Toc H Casnewydd	Bydd y grant yn rhoi'r pwyslais strategol cryf i ni ysgogi cyfnod cyffrous o dwf i'r Ganolfan. Bydd y cyllid yn rhoi'r adnoddau a'r amser sydd eu hangen arnom i gyd-ddylunio a darparu rhaglen newydd o weithgarwch i bobl ifanc, gan weithio yn ein cyfleusterau newydd mwy.	Casnewydd	£29,532.00
Cwmni Buddiant Cymunedol VIBE Youth	Bydd prosiect Materion y Meddwl yn darparu gweithdai iechyd meddwl wythnosol, hyfforddiant gwydnwch emosiynol bob pythefnos, a chylchoedd cymorth cymheiriaid misol. Hefyd, bydd sesiynau hyfforddi un i un a gweithdai rhieni tri misol yn darparu cymorth wedi'i deilwra, yn arfogi pobl ifanc â sgiliau ymarferol, ac yn meithrin amgylchedd cefnogol ar gyfer llesiant meddyliol hirdymor.	Abertawe	£20,000.00
Cwmni Buddiant Cymunedol Rhwydwaith Eiriolaeth Menywod	Mae'r Rhwydwaith Eiriolaeth Menywod yn gweithio i chwyddo a hyrwyddo lleisiau menywod a merched o gymunedau lleiafrifol yng Nghymru. Dechreuodd y mudiad drwy brofiadau bywyd menywod yn y gymuned, yn dioddef unigrwydd, ynysigrwydd, iechyd a llesiant meddyliol gwael a gwahaniaethu.	Abertawe	£34,350.00
Côr WOW 'Wales One World'	Trwy ein taith 10 mlynedd o weithdai a pherfformiadau cerddoriaeth creadigol, mae OOWC wedi rhoi llais i geiswyr lloches a ffoaduriaid yn eu cymuned newydd, gan hybu empathi a dealltwriaeth o'r problemau sy'n eu hwynebu. Bydd cyllid yn caniatau i ni ddatblygu, i gynyddu capasiti, ac i esblygu mewn ffordd gynaliadwy ac effeithiol.	Caerdydd	£26,450.00

Mudiad	Disgrifiad o'r Gweithgaredd	Sir	Dyfarniad grant
Wrexham Sounds Ltd	Trwy gynyddu ei gapasiti i ddarparu gwasanaethau, ei ganiatau i gynnig cymwysterau ac uwchraddio ei reolaeth ddigidol a'i farchnata, bydd cyllid Comic Relief yn cyflymu Wrexham Sounds ar ei daith i hunangynhaliaeth ariannol, gan sicrhau bod gan ei genhadaeth i drawsnewid bywydau difreintiedig trwy gerddoriaeth ddyfodol hirdymor posibl.	Wrecsam	£26,789.83